

# Comisiynau Arloesi Celfyddydau & Addysg

## Canllawiau

# 1. Cyflwyniad & Cefndir

Mae Comisiynau Arloesi yn y Celfyddydau ac Addysg gan Edau yn annog sefydliadau celfyddydol, ymarferwyr ac ysgolion i ymgymryd â phrosiectau arloesol sy'n cynnig cyfle ar gyfer datblygu syniadau cyffrous a chynnig atebion creadigol i rai o heriau addysg creadigol y presennol a'r dyfodol.

A ydych chi erioed wedi meddwl:

'Mae gen i syniad gwych, o na bawn yn gallu arbrofi arno er mwyn gweld a fyddai'n gweithio'

'Rydw i'n dymuno gwneud hyn mewn ffordd wahanol – ond yr ydw i angen adnoddau i arbrofi arno'

## **Dyma eich cyfle chi!**

Fel rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg, rydym ni'n dymuno annog gweithio mewn partneriaeth yn ogystal rhwng sefydliadau'r celfyddydau, arlunwyr, ysgolion ac athrawon.

Mae arloesi ynglŷn ag adnabod angen, her, problem neu gyfle ac yna archwilio ffordd newydd a chreadigol o ymdrin ag ef. Mae ysgolion a sefydliadau'r celfyddydau gwych yn arbenigwyr yn yr hyn y maen nhw'n ei wneud - maen nhw'n gwybod beth yw'r problemau y maen nhw angen eu datrys neu mae ganddyn nhw syniadau a fydd yn gwneud eu gwaith yn well, neu'n fwy effeithiol. Rydym ni angen eich cefnogi chi i ymestyn eich gorwelion, deall beth sy'n bosibl a rhoi'r dulliau hyn ar brawf.

## **Cefndir**

Un o bedwar Rhwydwaith Addysg a'r Celfyddydau yng Nghymru yw Edau ac mae'n rhan o Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Cymeradwywyd holl argymhellion Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau gan Lywodraeth Cymru, ac er mwyn cyflawni'r argymhellion ar gyfer Rhaglen y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan, sefydlwyd pedwar o rwydweithiau cenedlaethol fel rhan o'r cynllun i fireinio addysg y celfyddydau yn ein ysgolion.

## 2. About the Innovation Commissions

Prosiect newydd yw hwn i ddatblygu a rhannu syniadau a ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwneud yr amgylchedd addysgol mor greadigol ag sy'n bosibl.

Rydym ni'n cydnabod yr angen i gymryd risgiau er mwyn cyrraedd canlyniadau a'r posibilrwydd na fydd pob arloesedd yn llwyddo. Drwy gynllunio ar gyfer llwyddiant, rydym ni'n dymuno sicrhau nad ydym ni yn colli'r cyfle i brosiectau gymryd risgiau, methu lle bo angen a sicrhau bod y wybodaeth a gynhyrchir o'r methiant hwnnw yn cael ei rhannu gyda'r sector ehangach.

- Mae hyn yn ymwneud â phrofi pethau newydd a dysgu drwy gydol y broses.
- Mae hyn ynglŷn â bod yn greadigol a defnyddio creadigedd i ysbrydoli mwy o greadigedd.
- Rydym yn disgwyl ceisiadau gan bartneriaethau o sefydliadau'r celfyddydau a sefydliadau addysg.
- Nid oes raid i'n brosiectau arloesi gynnwys technoleg ddigidol.
- Bydd y brosiectau yn cynorthwyo y celfyddydau mynegiannol mewn ysgolion

### Nodau'r Prosiect

- Ysbrydoli creadigedd
- Rhannu dysgu yn agored
- Profi ffyrdd newydd o weithio
- Creu adnoddau ar gyfer eu rhannu e.e. pecynnau cymorth
- Gweithio mewn partneriaeth

Byddwn yn rhoi ystyriaeth arbennig i geisiadau sy'n ymblethu un (neu fwy) o'r themâu canlynol:

- y celfyddydau mynegiannol mewn ysgolion
- datblygiad proffesiynol athrawon y celfyddydau
- cynyddu creadigedd mewn ysgolion
- rhannu ar draws y celfyddydau

### Pa fath o gynigion a ydym ni'n chwilio amdany'n nhw?

- Heriau neu gyfleoedd wedi cael eu mynegi'n glir
- Bod y cynulleidfaoedd ar gyfer eich prosiect yn cael eu nodi'n glir
- Cynigion a all gael effaith sylweddol

## 3. Sut y mae'n gweithio

Mae'r broses yn dechrau gyda drwy alw ar bawb - gall unrhyw sefydliad celfyddydol neu addysgol nodi heriau a chyfleoedd a chyflwyno cais cyn y dyddiad cau.

Byddwn ni'n derbyn ceisiadau ar gyfer cam 1 yn unig, ac ar ôl hynny, nid yw'r camau ar agor i gynigion newydd.

Mae pedwar cam yn y rhaglen ac ym mhob cam, rydym ni'n dymuno sicrhau bod gwersi yn cael eu dwyn i sylw pobl a'u rhannu mewn amgylchedd agored a chefnogol. Os ydych chi'n llwyddiannus, bydd disgwyl i chi rannu'r gwersi o bob cam o'r broses.

### Gwneud Cais

Nod – rhoi rheswm clir i ymgymryd â phrosiect arloesi.

Nodi'r her/mater/broblem neu gyfle sy'n bodoli yn lleol ar hyn o bryd - mewn ysgol, clwstwr, mewn sefydliad celfyddydol neu dreftadaeth. Nid ydych chi angen cael atebion i'r problemau na'r cyfleoedd hyn yn ystod y cam hwn; dyma beth a fyddwch chi'n ei wneud yng ngham 2 os ydych chi yn cael eich dewis i fynd ymlaen i gam 2.

### Cam 1 - Syniadau a Phrofi

Nod – ymchwil a datblygiad, dod â phartneriaid ynghyd i gynhyrchu syniadau a all ddatrys yr her/y mater/y broblem.

Cyllideb - hyd at £1,000 fesul prosiect

Nifer o brosiectau - hyd at 12

Amserlen - 7 wythnos - hyd at 13 Mawrth 2017

Yn ystod y cam hwn, byddwch chi'n dod â'r bobl a gynigiwyd gennych chi yn eich cais ynghyd, a byddwch chi'n dechrau meddwl ynglŷn â'r atebion posibl i'r problemau a'r cyfleoedd. Nid ydych chi angen rhoi eich syniadau ar brawf yn ystod y cam hwn; dyma beth a fydd yn digwydd fel rhan o'r cam nesaf.

### Stage 2 - Cyflawni

Nod – Adeiladu, profi ac ailadrodd syniadau a'u hymwreiddio yn lleol

Cyllideb - hyd at £5,000 fesul prosiect

Nifer o brosiectau - hyd at 6 project wedi eu dewis o'r 12 o cam 1

Amserlen - 6 wythnos - hyd at 1af Mai 2017

Yn ystod y cam hwn, byddwch chi'n rhoi eich syniadau ar waith, ac ar ôl eu datblygu a'u profi, byddwch chi'n awr yn eu hymwreiddio fel rhan o'ch prosiect. Tra'r ydych chi'n gwneud hyn, byddwch chi'n monitro ac yn gwerthuso sut y mae'ch syniadau chi'n gweithio a pha mor llwyddiannus ydyn nhw.



### **Stage 3 - Ymestyn**

Nod – ymestyn cwmpas y prosiect i rannau eraill o Ogledd Cymru a thu hwnt.

Cyllideb – hyd at £9,000 fesul prosiect

Nifer o brosiectau - hyd at 2 project wedi eu dewis o'r 6 o cam 2

Amserlen - 10 wythnos - hyd at 10 Gorffennaf 2017

Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch chi'n ymestyn eich prosiect o'i ffurf a'i gwmpas presennol a'i ymestyn allu gweithio mewn gwahanol amgylcheddau ar gyfer gwahanol bobl er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol.

## 4. Sut i wneud cais

1. Cwblhewch y ffurflen gais atodedig
2. Atodwch gyllideb wedi'i mantoli
3. Atodwch unrhyw ddeunydd cefnogol

Dyddiad cau: 16th January 2016

Ebostiwch : iwan@edau.cymru

### **Pwy all ymgeisio?**

- Sefydliadau celfyddydol yn unrhyw le yn y byd
- Ysgolion yng Ngogledd Cymru
- Ymarferwyr yn unrhyw ran o'r byd
- Mae angen cyflawni'r prosiect yn ddwyieithog, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

### **Telerau ac Amodau**

- Bodlon rhannu eich profiadau, y rhai cadarnhaol a'r rhai negyddol fel ei gilydd.
- Ymrwymo i rannu eich gwaith gyda ni a chyflwyno adborth a gwerthusiad ffurfiol.
- Bydd cydlynwyr Edau yn gallu cael mynediad er mwyn cofnodi datblygiad y gwaith o dro i dro, ar gyfer dibenion hyrwyddo a marchnata ac er mwyn dysgu o'r prosiect.
- Bydd disgwyl i'r prosiectau a ddewisir fynychu o leiaf un digwyddiad Edau er mwyn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'u prosiect a'u canfyddiadau.
- Bydd angen cydnabod y ffynonellau cyllid ar yr holl ohebiaeth a'r datganiadau ynglŷn â'r gwaith.
- Mae prosiectau sydd wedi cael eu cyllido yn cytuno y bydd unrhyw waith pellach sy'n codi o'r gwaith cychwynnol yn cynnwys cydnabyddiaeth bod Edau yn bartner ac yn cyllido'r prosiect.
- Dylai'r ymgeiswyr fod yn fodlon cydweithio gydag Edau yn ystod y broses ddatblygu drwy ohebu'n rheolaidd.

## Gwybodaeth ychwanegol

- Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried gan banel dewis. Bydd eu penderfyniad yn derfynol.
- Mae costau cymwys yn cynnwys ffioedd artistiaid / sefydliadau, deunyddiau, ymchwil a datblygu, costau prosiectau, offe.
- Dylai'r holl gostau gynnwys TAW.
- Nid oes angen i chi sicrhau arian cyfatebol ar gyfer y prosiect, mae Edau yn medru ei ariannu 100%, ond bydd eich cais yn gryfach os oes arian cyfatebol yn rhan o'r prosiect.

## 5. Dyddiadau Pwysig

- 16 Ionawr 2017 - Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau
- 23 Ionawr 2017 - Bydd Edau yn gadael i chi wybod os ydych wedi bod yn llwyddiannus.

## 6. Cyswllt

### Gwynedd, Môn & Conwy

Mari Lloyd Pritchard | mari@edau.cymru | 07984 586 857

### Sir Ddinbych, Sir Y Fflint & Wrecsam

Iwan Glyn Williams | iwan@edau.cymru | 07449 797614